

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**30/01/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig**  
**Questions to the Minister for Rural Affairs**

**Animal Welfare**

**Q8 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for animal welfare? OAQ(3)0175(RAF)

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** Welsh Assembly Government priorities for companion animal welfare have already been published and are available on our website. We are continuing to work with individuals and organisations on the requirement for animal welfare transport certificates and the development of the proposed broiler directive by 2010.

**Bovine TB Science Advisory Body**

**Q9 William Graham:** Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's involvement in the appointment of the bovine TB science advisory body? OAQ(3)0188(RAF)

**Elin Jones:** The Welsh Assembly Government has not been involved in the establishment of the new bovine TB science advisory body as this body has been set up to provide the Department for Environment, Food and Rural Affairs with independent advice on bovine TB-related research. The body will, however, provide evidence that may be of relevance to Wales.

**Cynllun Gwaredu Ŵyn**

**C10 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun gwaredu ŵyn? OAQ(3)0211(RAF)

**Lles Anifeiliaid**

**C8 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lles anifeiliaid? OAQ(3)0175(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lles anifeiliaid anwes wedi'u cyhoeddi eisoes, ac maent ar gael ar ein gwefan. Yr ydym yn parhau i gydweithio ag unigolion a sefydliadau ar yr angen am dystysgrifau lles wrth gludo anifeiliaid, ac ar ddatblygu'r gyfarwyddeb ieir bwyta arfaethedig erbyn 2010.

**Corff Ymgynghorol Gwyddoniaeth TB mewn Gwartheg**

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru at benodi'r corff ymgynghorol gwyddoniaeth TB mewn gwartheg? OAQ(3)0188(RAF)

**Elin Jones:** Ni fu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhan o'r broses o sefydlu'r corff cynghori gwyddonol ar TB mewn gwartheg. Cafodd y corff yma ei sefydlu i roi cyngor annibynnol i'r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar waith ymchwil sy'n gysylltiedig â TB. Fe fydd y corff, fodd bynnag, yn darparu tystiolaeth a allai fod yn berthnasol i Gymru.

**Lamb Disposal Scheme**

**Q10 Bethan Jenkins:** Will the Minister make a statement on the lamb disposal scheme? OAQ(3)0211(RAF)

**Elin Jones:** Dechreuodd y cynllun gwaredu ŵyn ysgafn er lles ar 27 Hydref 2007, a bu'n rhedeg am 10 wythnos tan iddo ddod i ben ar 4 Ionawr 2008. Cafodd 131,423 o ŵyn eu rhoi ar y cynllun. Tua £3.1 miliwn yw'r amcangyfrif o'r gost, a chafodd tua £1.970 miliwn o'r swm hwnnw ei dalu'n uniongyrchol i ffermwyr.

### **Rural Sustainability**

**Q11 Darren Millar:** Will the Minister make a statement on rural sustainability? OAQ(3)0215(RAF)

**Elin Jones:** The 'One Wales' document sets out the Government's commitments to sustain and enhance rural areas. Within my ministerial portfolio, actions supported under the rural development plan are aimed at sustaining the competitiveness of agriculture and forestry, improving the environment and the countryside and enhancing the quality of life in rural communities.

### **Nitrate Storage**

**Q12 Darren Millar:** Will the Minister make a statement on nitrate storage on farms? OAQ(3)0214(RAF)

**Elin Jones:** The UK Government has sought to raise awareness among the farming community of the need to ensure the safe and secure storage of nitrogen fertilisers on farm. For example, in 2005, the 'Security of Fertiliser Storage on Farms' leaflet was sent to every farm in the UK.

### **Social and Economic Wellbeing of Rural Communities**

**Q13 Alun Davies:** Will the Minister give a report on the progress that the Welsh Assembly Government is making in order to enhance the social and economic wellbeing of rural communities by encouraging more diverse groups of people to visit the Welsh countryside? OAQ(3)0205(RAF)

**Elin Jones:** I refer you to my earlier answer on this matter, namely to question 1, tabled by Janice Gregory.

**Elin Jones:** The light lamb welfare disposal scheme opened on 27 October 2007 and ran for 10 weeks, closing on 4 January 2008. A total of 131, 423 lambs were entered into the scheme. The estimated cost is some £3.1 million, of which some £1.970 million was paid direct to farmers.

### **Cynaliadwyedd Gwledig**

**C11 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynaliadwyedd gwledig? OAQ(3)0215(RAF)

**Elin Jones:** Mae dogfen 'Cymru'n Un' yn rhoi amlinelliad o ymrwymiadau'r Llywodraeth i gynnal a gwella ardaloedd gwledig. Yn fy mhortffolio fel Gweinidog, mae'r camau i gefnogi'r cynllun datblygu gwledig yn ceisio sicrhau bod amaethyddiaeth a choedwigaeth yn parhau i fod yn gystadleuol, yn ceisio gwella'r amgylchedd a chefn gwlad, ac yn ceisio gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig.

### **Storio Nitradau**

**C12 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am storio nitradau ar ffermydd? OAQ(3)0214(RAF)

**Elin Jones:** Bu Llywodraeth y DU yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymysg y gymuned ffermio o'r angen i sicrhau bod gwrtaith nitrogen yn cael ei storio'n ddiogel ar ffermydd. Er enghraifft, yn 2005, cafodd y daflen 'Security of Fertiliser Storage on Farms' ei hanfon i bob fferm yn y DU.

### **Lles Cymdeithasol ac Economaidd Cymunedau Gwledig**

**C13 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad am y cynnydd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig drwy annog grwpiau mwy amrywiol o bobl i ymweld â chefn gwlad Cymru? OAQ(3)0205(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf yn eich cyfeirio at fy ateb blaenorol ar y mater hwn, a hynny i gwestiwn 1, a gyflwynwyd gan Janice Gregory.

## The Welsh Countryside

**Q14 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to enhance the social and economic wellbeing of rural communities by encouraging more diverse groups of people to visit the Welsh countryside? OAQ(3)0204(RAF)

**Elin Jones:** I refer you to my earlier answer on this matter, namely to question 1, tabled by Janice Gregory.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)0196(RAF), yn ôl.*

## Cefn Gwlad Cymru

**C14 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig drwy annog grwpiau mwy amrywiol o bobl i ymweld â chefn gwlad Cymru? OAQ(3)0204(RAF)

**Elin Jones:** Yr wyf yn eich cyfeirio at fy ateb blaenorol ar y mater hwn, a hynny i gwestiwn 1, a gyflwynwyd gan Janice Gregory.

*Question 15, OAQ(3)0196(RAF), was withdrawn.*